**Partneriaeth**
**Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)**
**Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy**
**Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd**
**Ddydd Gwener 22 Mawrth 2019**
**yng**
**Ngwesty Nant Hall, Prestatyn**
**am 10:00am**

DRAFT

Aelodau'r Bartneriaeth AHNE

Cynrychiolwyr Diddordeb Gwledig
Christine Evans, Roger Cragg

Cynrychiolydd Diddordeb Busnes
Dewi Davies

Cynrychiolydd Diddordeb Tirwedd
Michael Skuse

Cynrychiolydd Diddordeb Hanesyddol
Tony King

Cynrychiolwyr Diddordeb Trefol
Ian Papworth

Cynrychiolydd yr Amgylchedd Naturiol
Les Starling

Cynrychiolwyr Rheoli Tir
Sandy Archdale, Huw Morgan

Cynrychiolydd yr Amgylchedd Adeiledig
Phil Durrell

Cynrychiolwyr AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Y Cynghorydd Tony Thomas Cadeirydd y Cydbwyllgor
Y Cynghorydd L Jones CSDd
Y Cynghorydd Christine Marston CSDd
Y Cynghorydd Hugh Jones CBSW
Y Cynghorydd Sonia Benbow-Jones CBSW
Y Cynghorydd Paul D Jones CBSW
Y Cynghorydd David Kelly Cydbwyllgor CBSW

Howard Sutcliffe Swyddog AHNE
David Shiel Swyddog AHNE Cynorthwyol
Tony Hughes Swyddog Cynllunio AHNE
Karen Weaver Swyddog Cyfathrebu AHNE
Ceri Lloyd Swyddog Datblygu Cynaliadwy AHNE
Rhun Jones Uwch Warden Cefn Gwlad AHNE
Rachel Jones Swyddog Partneriaeth AHNE

Yn Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych
Huw Rees Pennaeth Gwasanaeth Cefn Gwlad a Threftadaeth

Yn cynrychioli Cyngor Sir y Fflint:
Helen Mrowiec Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir y Fflint

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Anna Irwin, Allan Forrest

Yn cynrychioli Cyfoeth Naturiol Cymru
Paul Mitchell, Richard Deering

Yn cynrychioli Cymdeithas Cenedlaethol AHNE (NAAONB)
Howard Davies

**Cyflwynwyd Ymddiheuriadau am Absenoldeb gan: -**
Andrew Worthington OBE Cadeirydd, Y Cynghorydd Paul Cunningham (Is-Gadeirydd) Y Cynghorydd Colin Legg, Y Cynghorydd Martyn Holland, Y Cynghorydd Owen Thomas, John Roberts, Del Roberts-Jones, Rajan Madhok, Martin Howarth.
**Croeso**

Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, cytunodd y Cynghorydd Hugh Jones i gadeirio'r cyfarfod. Estynnodd groeso cynnes i aelodau newydd y Bartneriaeth, Huw Morgan a Rajan Madhok.

**1. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2018**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

**Materion yn codi**

**Tudalen 8 Eitem 7**

Wythnos Eithriadol NAAONB
Dywedodd y Swyddog AHNE y cerddwyd hyd gyfan y Safle Treftadaeth Y Byd fesul taith fel rhan o'r wythnos ac y bu presenoldeb da ar bob un o'r teithiau. Bydd yr Wythnos Eithriadol yn cael ei hailadrodd eleni a chyhoeddwyd y digwyddiad yn *Out & About*.

**2. Y Wybodaeth Ddiweddaraf gan Weithgorau**

Derbyn y wybodaeth ddiweddaraf gan Gadeiryddion y Gweithgorau.

2.1 **Gweithgor Treftadaeth, Diwylliant a Chymunedau**

Eglurodd Cadeirydd y grŴp, Christine Evans, fod aelodau o Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys a Cheidwaid yr AHNE wedi bod yn clirio prysgwydd ger y Mwnt 6m o uchder, Tomen y Faerdre, Llanarmon yn Iâl ac y byddai mwy o waith yn cael ei wneud yn ystod mis Hydref.

Gwaith Cloddio Clawdd Offa yng Nghastell Y Waun 2018
Arweiniodd Uwch Archeolegydd Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys, Ian Grant, ar waith cloddio ar dir Castell Y Waun.

Dyddio Clawdd Offa
Cwblhawyd dyddio carbon a nodwyd dau bwynt o ddiddordeb o'r canlyniadau, yn gyntaf, roedd y dyddiadau yn dangos y cafodd y clawdd ei adeiladu ar ôl AD 430 ac felly yn amlwg wedi oes y Rhufeiniad. Yn ail, roedd y dyddiad AD 887-1019 dros 100 mlynedd wedi teyrnasiad Offa. Roedd ymchwil a dadansoddiad pellach yn parhau.

Adfer Gorsaf Ddenu Cilcain
Roedd y grŴp wedi bod yn ymchwilio'r posibilrwydd o adfer y Byncer a ddefnyddiwyd i ddenu a drysu'r Almaenwyr a oedd yn bomio yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Bydd Ian Grant, ynghyd ag aelodau o Gyfeillion Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, yn ymweld â'r safle gyda'r nod o ddiogelu'r safle a darparu dehongliad.

Coetir Derw Coed Bell, Prestatyn
Roedd y grŴp wedi dyrannu ei gyllideb o £1,000 tuag at glirio prysgwydd.

2.2 **Gweithgor Rheoli Tir a'r Amgylchedd Naturiol**

Tân Rhostir ar Fynydd Llantysilio
Cyflwynodd Cadeirydd y grŴp, Les Starling, yr Uwch Warden Cefn Gwlad, Rhun Jones, a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf yn sgil y tân rhostir. Galwodd Pwyllgor Craffu CSDd gyfarfod 'casglu tystiolaeth / gwersi a ddysgwyd' ac fe gydnabuwyd a gwerthfawrogwyd cyfraniad y Gwasanaeth Cefn Gwlad. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn ymchwilio i'r tân hefyd a nododd efallai mai lleihad o ran nifer yr anifeiliaid yn pori oedd yn rhannol gyfrifol am y tân. Nid oedd ffynhonnell y tân wedi'i ganfod ond awgrymwyd mai gwaith llosgi dan reolaeth a ddechreuodd y tân. Ystyriodd y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod y gwaith rheoli ar y mynydd yn y dyfodol hefyd.
Cafwyd trafodaeth i ddilyn. Gofynnodd Aelod a oedd digon o staff y Gwasanaeth Tân yn bresennol. Atebodd Rhun gan ddweud yr oedd digon o staff yn bresennol. Rhoddwyd ystyriaeth i a ddylid bod wedi galw ar y fyddin i gynorthwyo. Fodd bynnag, ni alwyd ar y fyddin ac ni ddatganwyd y tân yn ddigwyddiad mawr gan nad oedd eiddo mewn perygl.



DRAFT

Rheolaeth Briodol o Losgi Dan Reolaeth

Mynegwyd pryderon o ran dyfodol llosgi dan reolaeth ac eglurwyd bod rheoli tir yn cael ei gymell gan anghenion amaethyddol. Bydd llosgi cyfrifol yn cael ei hyrwyddo a bydd y gwasanaeth tân yn rhan o'r broses hon.

Awgrymodd un aelod y dylid gwahodd y wasg leol i edrych ar y difrod yr oedd y tân wedi'i achosi ac y dylid egluro'r polisi o ran rhwystrau tân.

*Flailbot*

Roedd y Ceidwaid yn defnyddio *Flailbot,* peiriant lladd gwair a ddefnyddir yn di-wifr, a oedd yn effeithiol iawn wrth gael gwared ar hen eithin ar lethrau mynydd. Roedd y gwaith torri eisoes wedi'i wneud ar Moel Famau a Moel Fenlli.

Cafwyd trafodaeth a gofynnwyd pam bod y peiriant yn cael ei ddefnyddio yng nghanol y tymor wyna. Esboniwyd bod yr eira wedi achosi oedi yn y rhaglen a gobeithir na fydd hyn yn digwydd yn y blynyddoedd i ddod.

Cais Pori SMS

Roedd y cais yn un llwyddiannus. Byddai 41 o safleoedd yn cael eu defnyddio ar gyfer pori cynaliadwy. Byddai dau swyddog prosiect yn cael eu penodi ac roedd y swyddi yn cael eu hysbysebu ar hyn o bryd.

2.3 **Gweithgor Cymeriad Tirwedd ac Amgylchedd Adeiledig**

Roedd y Cynghorydd Martyn Holland wedi cyflwyno ei ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod heddiw ac fe gyflwynodd y Swyddog Cynllunio AHNE y wybodaeth ddiweddaraf am waith y grŵp. Eglurodd, yn ogystal â'r gwaith arferol o ymdrin ag ymgynghoriadau yn ymwneud â chynllunio a datblygu, roedd y grŵp yn canolbwyntio ar gyflawni tri prif faes o waith yn codi o'r Cynllun Rheoli AHNE, y fenter Awyr Dywyll; Lleihau Amhariad Gweledol a Monitro Newid yn y Tirwedd.

Menter Awyr Dywyll

Rhoddwyd cyflwyniad i'r grŵp ar yr ymweliad ymgyfarwyddo ag AHNE Gogledd y Pennines. Roedd yn daith llawn gwybodaeth, a oedd yn cynnwys ymweliad safle i'r arsyllfa awyr agored. Roedd Swyddog Awyr Dywyll, Tirweddau Gwarchodedig Gogledd Cymru bellach wedi'i benodi, Dani Robertson, a oedd hefyd wedi rhoi cyflwyniad i'r grŵp. Bydd Dani'n cynorthwyo AHNE â'r cais am gydnabyddiaeth ffurfiol o statws awyr dywyll. Roedd hefyd yn arwain cyfres o ddigwyddiadau addysgol i'w cynnal drwy gydol y flwyddyn ac i'w cynnwys yn rhaglen ddigwyddiadau ddiweddaraf *Out & About.* Bydd rhai o'r digwyddiadau mewn partneriaeth â Techniquest, Wrecsam.

Cadarnhawyd y byddai'n rhaid i AHNE gael Cynllun Goleuo fel rhan o'r cyflwyniad am gydnabyddiaeth awyr dywyll ffurfiol, a bydd darn o waith yn cael ei gomisiynu'n fuan ar draws y tri Awdurdod Lleol. Nodwyd bod peth gwaith i ddiweddaru goleuadau stryd eisoes wedi'i wneud, a oedd wedi lleihau llygredd golau, ond derbyniwyd sylwadau fod hyn wedi arwain at fonitro TCC llai effeithiol mewn rhai mannau. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth nad oedd nifer y troseddau wedi cynyddu o ganlyniad i lai o olau.

Lleihau Amhariad Gweledol - Llinellau Trydan Uwchben

Ers peth amser, mae'r grŵp wedi bod yn rhan o brosiect partneriaeth hirdymor ar y cyd â Scottish Power i osod y llinellau trydan uwchben mwyaf amlwg dan ddaear yn yr AHNE. Mae'r gwaith hwn yn parhau a bydd y prosiect nesaf yn cael ei gynnal ger Bwlch Yr Oernant.

Monitro Newid yn y Tirwedd – Clefyd Coed Ynn

Gan fod 70 y cant o Gymru bellach wedi'i effeithio gan Glefyd Coed Ynn, yn cynnwys rhan fwyaf o'r AHNE, cydnabu'r grŵp fod gan hyn botensial sylweddol i newid cymeriad y tirwedd. Yn ddiweddar, datblygodd y Cyngor Coed Becyn Gwaith Clefyd Coed Ynn yn benodol wedi'i anelu at reolwyr tir, a gobeithir y bydd hyn yn cael ei ystyried ymhellach yn ystod cyfarfod yn y dyfodol. Deallwyd hefyd fod Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal gweithgor i ganolbwyntio ar y mater. Cyflwynodd y Swyddog Partneriaeth Gymunedol, Rachel Jones, ffilm a gomisiynwyd yn ddiweddar ac arolwg drôn yn dangos

DRAFT

graddau'r Clefyd Coed Ynn yn Nyffryn Alyn, yn enwedig Parc Gwledig Loggerheads, ac yn cofnodi a dathlu'r hyn y gallem ei golli. Dangoswyd y ffilm yn ystod y cyfarfod a bydd yn cael ei gyflwyno i'r cyhoedd yn fuan. Bydd AHNE hefyd yn gwahodd y cyhoedd i rannu eu lluniau o goed Ynn.

2.4 **Gweithgor Hamdden, Mwynhad a Dealltwriaeth**

Roedd Cadeirydd y GrŴp, John Roberts, eisoes wedi cyflwyno ei ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod hwn ac felly cyflwynodd Roger Cragg y wybodaeth ddiweddaraf ar ran y grŴp.

Prosiect Natur er budd Iechyd -

Roedd y Prosiect yn fenter ar y cyd rhwng Tîm Tai Sir Ddinbych a Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych, i hyrwyddo'r manteision lles sy'n gysylltiedig â bod yn yr awyr agored yn yr amgylchedd naturiol. Byddai'r cynllun yn defnyddio rhagnodiadau cymdeithasol amgylcheddol mewn pedair ardal: Y Rhyl, Prestatyn, Llangollen a Chorwen, ar gyfer gweithgareddau ddwywaith yr wythnos, megis rhandiroedd, gwirfoddoli a cherdded. Roedd Swyddog Tai CSDd, Emily Reddy, yn arwain y prosiect hwn ac roedd ganddi gysylltiadau da â'r preswylwyr. Cafwyd ymateb dai'r prosiect a theimlwyd bod gweithio gydag aelodau o'r Gwasanaeth Cefn Gwlad wedi annog mwy o bobl i fynychu. Roedd yn brosiect da a chydweithrediadol.

Llwybrau cerdded

Cafwyd cefnogaeth ardderchog gan bob un o'r tri Awdurdod Lleol a braf oedd gweld Timau Hawliau Tramwy'r Awdurdodau Lleol hyn yn bresennol yn cyfarfod. Roedd y Tîm yn Sir y Fflint wedi'i ad-drefnu yn ddiweddar. Cydnabuwyd bod yr holl Dimau yn darparu gwasanaeth da mewn amgylchiadau ariannol heriol iawn.

Data ar lwybrau troed

Yn gyffredinol y data hyd yma, cynigiwyd cymorth i CSDd, fodd bynnag roedd rhai anawsterau o ran benthyca llechi recordio. Roedd data ar gael ar y System Gwybodaeth Ddaearyddol. Mae'r eitem hon yn parhau.

Ffotograffiaeth Pwynt Sefydlog

Galwyd cyfarfod gyda Swyddog Llwybr Clawdd Offa, Rob Dingle, i drafod ffotograffiaeth pwynt sefydlog posibl mewn lleoliadau ar Lwybr Clawdd Offa.

2.5 **Gweithgor Twristiaeth Gynaliadwy ac Ymgysylltu â Busnes**

Darparodd Cadeirydd y GrŴp, Dewi Davies y wybodaeth ddiweddaraf ar ran y grŴp.

Astudiaeth Gwerthusiad Ymwelwyr

Roedd y Tîm wedi derbyn drafft cychwynnol o'r adroddiad. Mae gwybodaeth ychwanegol wedi'i darparu i'r ymgynghorwyr penodedig a bydd ail ddrafft yn cael ei ddosbarthu i'r grŴp maes o law.

Cam Gweithredu

Bydd yr Astudiaeth yn cael ei chyflwyno i'r Bartneriaeth pan fo'n derfynol.

Aros, Bwyta, Gwneud - GrŴp Twristiaeth Bryniau Clwyd

Y themâu presennol oedd: celf a chrefft a sgiliau cefn gwlad. Roedd y prosiect wedi derbyn llawer iawn o sylw yn y cyfryngau.

GrŴp Gwirfoddolwyr Gogledd Ddwyrain Cymru

Bu i bedwar o grwpiau busnes gwirfoddol gwrdd i drafod gweinyddu a phwysau eraill. Roedd y grwpiau'n ymchwilio i'r posibilrwydd o rannu adnoddau – pobl, arbenigedd, ac amser ar draws grwpiau gwahanol. Byddai'n rhaid cael cyllid i benodi gweithiwr proffesiynol ym maes busnes i archwilio'r gwelliannau llywodraethu priodol.

Cawr Corwen

Roedd hwn yn brosiect ar y cyd â Chroeso Cymru, byddai'r cawr 'Drewyn' yn cael ei ddeffro gan y gymuned ddydd Sadwrn, 23 Mawrth yn ystod y digwyddiad lansio. Byddai'r prosiect yn rhoi proffil da i Gorwen a'r rheilffordd. Arweiniodd y Swyddog Datblygu Cynaliadwy, Ceri Lloyd, y prosiect hwn ar ran AHNE. Gwahoddwyd yr Aelodau i fynychu'r lansiad.

10 mlwyddiant y Safle Treftadaeth Y Byd
Roedd pecyn arfaethedig o weithgareddau ar y cyd rhwng AHNE, Awdurdodau Lleol, Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd, a grwpiau cymunedol, gan arwain at gais i Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth Croeso Cymru.

Strategaeth Twristiaeth Cyngor Sir Ddinbych
Roedd copi o'r strategaeth ddrafft newydd wedi'i anfon allan at ddibenion ymgynghori.

2.6 **Gweithgor y Gronfa Datblygu Cynaliadwy**

Dywedodd Cadeirydd y grŴp, Mike Skuse, o'r cyfanswm o £50,000 ar gyfer 2019/2020, roedd y grŴp wedi dyfarnu ychydig dros £25,000 mewn cyfarfod diweddar Roedd ceisiadau eraill nawr ar y gweill a byddai prosiectau yn cael eu cyflwyno yn ystod y cyfarfod nesaf. Ymysg y rhai a gymeradwywyd oedd:

- Prosiect Eco-Gysylltedd Graigfechan YBGGC — £14,000 dros ddwy flynedd
- Hyfforddiant mewn Sgiliau Gwledig Sylfaenol o fewn yr AHNE yn Sir y Fflint – prosiect partneriaeth rhwng yr AHNE a CSFf — £2,350
- Deffro Cawr Corwen — £1,500

Dywedodd y Swyddog Datblygu Cynaliadwy, Ceri Lloyd, bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y byddai £147,000 o arian ychwanegol yn cael ei ddarparu i AHNE Cymru o danwariant y Gronfa Datblygu Cynaliadwy eleni.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod bob amser yn rhyfeddu at yr holl waith yr oedd gwirfoddolwyr yn ei wneud a diolchodd i bawb am gyfrannu i wneud yr AHNE yn le mor arbennig.

## 3. Cynnydd Adran 85

Gwaith Trin DŴr Gwastraff Pontcysyllte
Dywedodd Swyddog yr AHNE ei fod wedi cynnal cyfarfod preifat â Rheolwr Gyfarwyddwr DŴr Cymru ar gyfer DŴr Gwastraff, Steve Wilson, roedd Steve mewn trafodaethau â Chyfoeth Naturiol Cymru i gael y gwaith trin carthion i'r fframwaith cywir.

Menter Gwella Tirwedd
Roedd sawl ffermwr lleol yn gwneud cais am y Fenter Gwella Tirwedd yn ardal Tremeirchion.

Gosod Gwifrau Dan Ddaear - Scottish Power
Roedd gwaith yn cael ei gwblhau ar Fwlch Yr Oernant ac roedd ystod o gynlluniau bellach yn cael eu harchwilio, yn cynnwys gorsaf bwmpio Eglwys Llangar, Fron Bache, Plas Newydd.

## 4. Proses Datganiad Ardal

Rhoddodd Uwch Swyddog Cynllunio Adnoddau Naturiol Gogledd Ddwyrain Cymru, Richard Dearing gyflwyniad PowerPoint ar Broses Datganiad Ardal Cymru.

Yn gryno, y nod oedd 'rheolaeth gynaliadwy o'n adnoddau naturiol mewn modd ac ar gyfradd sy'n diwallu anghenion y genhedlaeth bresennol heb amharu ar anghenion cenedlaethau'r dyfodol ac sy'n cyfrannu at y saith nod lles o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'.
(gweler y cyflwyniad sy'n amgaeedig) Cafwyd trafodaeth i ddilyn.

Mynegwyd pryderon o ran yr anawsterau presennol mewn perthynas â da byw a'r hyn a gynigiwyd ar gyfer y gymuned ffermio. Ymatebodd Richard gan ddweud nad oedd unrhyw benderfyniad wedi'i wneud hyd yma, ac y byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio'n agos iawn â'r gymuned ffermio ac y byddai unrhyw gynigion / cyfleoedd yn cael eu rhannu.

DRAFT

Mynegodd Aelodau bryderon o ran llygredd golau a sŵn a phwysigrwydd ymgysylltu â'r cymunedau lleol yn ystod y broses.

Roedd Mike Skuse o'r farn bod Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol efallai yn edrych fel y gallai wanhau'r mesurau diogelu a roddwyd i dirweddau a ddiogelir a holodd a fyddai efallai yn cael ei ddehongli mewn modd a fyddai'n caniatáu rhai datblygiadau ffermydd gwynt o fewn yr AHNE.

**6. Cymdeithas Genedlaethol Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (NAAONB)**

Rhoddodd Prif Weithredwr NAAONB, Howard Davies, gyflwyniad Power Point clir a chryno yn egluro pwrpas y Gymdeithas a bod 46 o AHNE yng Nghymru a Lloegr yn cwmpasu 8000 milltir sgwâr, 700 o aelodau etholedig gyda throsiant partneriaethau AHNE oddeutu £20 miliwn y flwyddyn. (gweler y cyflwyniad sy'n amgaeedig)
Mynegwyd pryderon nad oedd yn ymddangos bod nifer fawr o bobl yn cydnabod pwysigrwydd AHNE o'u cymharu â Pharciau Cenedlaethol. Cydnabuwyd hyn. Roedd y rhan fwyaf o bobl yn gwybod am leoliadau megis Moel Famau a'r Cotswolds ond nid oeddent yn ymwybodol bod yr ardaloedd hyn o fewn AHNE.
Cytunwyd bod rhaid i'r dull o ran tirweddau cyfan fod yn un sydd yn ymwneud ag integreiddio.

Swyddog AHNE oedd y swyddog arweiniol yn cynrychioli'r NAAONB ar y Pwyllgor Grid Cenedlaethol.

**7. Y Wybodaeth Ddiweddaraf gan Swyddog yr AHNE**

70 mlwyddiant Deddf Mynediad i Gefn Gwlad
Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i warchod harddwch naturiol rhai o'n hardaloedd gorau a mwyaf poblogaidd. Dywedodd Swyddog yr AHNE fod eleni yn nodi 70 mlwyddiant y Ddeddf. Er mwyn dathlu hyn, roedd NAAONB yn gweithio gyda Chynghorau Celfyddydau i drefnu artist preswyl, a gwelliant i natur drwy'r holl AHNE.
Cydbwyllgor
Roedd Swyddog yr AHNE a Chadeirydd y Cydbwyllgor wedi cynnal ymweliad safle â Phenrhyn Llŷn ac wedi cwrdd â Chadeiryddion AHNE eraill a oedd wedi'u lleoli yng Nghymru. Cytundeb Cyfreithiol
Roedd nawr yn amser i adnewyddu'r cytundeb. Roedd wedi gweithio'n dda dros y pum mlynedd diweddaf a dim ond mân newidiadau fyddai'n rhaid eu gwneud.

Llythyr Cyffredinol at Awdurdodau Lleol ac Aelodau
Roedd Cadeirydd y Cydbwyllgor wedi anfon llythyr cyffredinol at y tri Awdurdod Lleol ac Aelodau er mwyn eu hatgoffa o bwysigrwydd yr ardal AHNE. Roedd wedi rhoi enghraifft o arwydd a godwyd yn diweddar ar Fwlch Yr Oernant ac arwyddion melyn ni ymgynghorwyd arnynt â'r AHNE.

Prosiect Ein Tirlun Darluniadwy
Roedd rhai prosiectau bychain wedi dechrau yn cynnwys y Llwybr Clincer yn Nhrefor a oedd wedi'i gwblhau ac roedd y gwaith ar y grisiau ym Mhlas Newydd yn mynd rhagddo.

**8. Unrhyw Fater Arall**

**Prosiect Gylfinir Cymru**
Eglurodd yr Uwch Warden Cefn Gwlad, Rhun Jones, nad oedd yr un o'r ceisiadau Prosiect Gylfinir wedi bod yn llwyddiannus. Pwysleisiodd fod aelodau o Gylfinir Cymru yn fodlon mynychu grwpiau cymunedol i roi cyflwyniadau gan fod angen codi proffil y prosiect. Bydd cyfarfod yn cael ei gynnal yr wythnos nesaf i ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol.

**9. Dyddiadau Cyfarfodydd y Dyfodol**

| Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|
| Dydd Gwener 14 Mehefin 2019 | am 10am | Pafiliwn Chwaraeon Corwen<br>Gwobrau AHNE i'w cyflwyno |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Gwener 18 Hydref | 2019 | am 10am | I'w benderfynu |
| Fforwm Blynyddol yr AHNE 7 Tachwedd (Gyda'r Nos) | 2019 | Gyda'r Nos | |
| Dydd Gwener 14 Chwefror | 2020 | 10am | I'w benderfynu |
| Dydd Gwener 5 Mehefin | 2020 | 10am | I'w benderfynu |
| Dydd Gwener 9 Hydref | 2020 | 10am | I'w benderfynu |

DRAFT